YSGOL BRYNREFAIL

Ymddeoliad Ms. Eirwen Williams

Ar ddiwedd y tymor hwn, bydd Ms. Eirwen Williams yn ymddeol ar ôl blynyddoedd maith o wasanaeth cydwybodol iawn ym myd addysg, yn cynnwys yr 20 mlynedd diwaethaf yma yn Ysgol Brynrefail yn ei rôl fel Dirprwy Bennaeth. Dros yr holl gyfnod, mae hi wedi profi ei hun i fod yn arweinydd effeithiol iawn tra'n hynod barod i roi cefnogaeth gadarn i'r staff, yn dorfol ac yn unigol, ac i gynnal y disgyblion mewn modd gofalgar a sensitif. Mae hi hefyd wedi bod yn ddolen gyswllt allweddol rhwng yr ysgol a'r llu o fudiadau ac asiantaethau allanol sydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyfoethogi profiadau'r disgyblion. O ganlyniad, mae hi wedi ennyn parch sawl cenhedlaeth o staff, disgyblion, rhieni a cyfeillion yr ysgol. Rydym fel ysgol yn llongyfarch ac yn diolch yn fawr iawn i Ms. Williams am ei gwasanaeth ffyddlon a graenus ac yn dymuno ymddeoliad hir, iach a hapus dros ben iddi.

Eifion Jones, Pennaeth